| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **11 CHWEFROR 2016** |
| **TITLE** | **YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH WESTMINSTER (DCLG) AR DDIDDYMU A DISODLI'R RHEOLIADAU CYNLLUN BENSIWN LLYWODRAETH LEOL (RHEOLAETH A BUDDSODDI CRONFEYDD) 2009** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol bod gan y Gronfa Bensiwn Datganiad Egwyddorion Buddsoddi sydd yn darparu fframwaith ar gyfer y buddsoddiadau. Mae'n cynnwys unrhyw gynnydd i'r cyfyngiadau safonol yn y ddeddfwriaeth ar gyfer mathau penodol o fuddsoddiadau.

1.2 Mae'r ymgynghoriad cyfredol yn cynnig diddymu'r rheoliadau ac na fyddai'n cyfyngiadau yn weithredol bellach. Y rheswm dros y newid hwn yw galluogi gronfeydd cymryd rhan mewn cyfuno buddsoddiadau heb dorri'r cyfyngiadau cyfredol.

1.3 Anelir yr ymgynghoriad at yr holl bartïon sydd gyda diddordeb yn y CPLlL a 19 Chwefror 2016 yw'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion. Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a chyhoeddir ymateb y Llywodraeth o fewn tri mis ac yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, bydd y rheoliadau canlynol yn cael eu cyflwyno i'r Senedd.

## 2. CYNNIG 1: MABWYSIADU DULL LLEOL I FUDDSODDI

2.1 Mae'r papur ymgynghori yn gosod y materion canlynol o dan gynnig 1:

- Dadreoleiddio a mabwysiadu dull lleol i fuddsoddi wrth symleiddio'r rheoliadau sydd yn llywodraethu'r rheolaeth a buddsoddiad arian.
- Diddymu'r atodlen o gyfyngiadau ar fuddsoddiadau presennol. Yn lle disgwylir i awdurdodau defnyddio dull cynghorus, yn arddangos eu bod wedi ystyried priodoldeb y gwahanol fathau o fuddsoddiadau, wedi sicrhau portffolio asedau amrywiol priodol, ac wedi sicrhau dull priodol i reoli risg. Byddai hyn yn caniatáu i ni fuddsoddi 15% yng nghronfa Insight heb y droshaen DU sydd ei angen er mwyn cydymffurfio gyda'r rheoliadau. Byddai'n rhoi rhagor o hyblygrwydd ar gyfer BlackRock wrth fuddsoddi mewn cronfeydd goddefol yn ystod unrhyw gyfnod trawsnewidiad. Byddai'n hwyluso croniad ar raddfa uwch yn unol â gofynion y Llywodraeth.

- Yn hytrach na'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, bydd gofyniad am Strategaeth Buddsoddi i'w paratoi gan yr awdurdodau, ar ôl cymryd cyngor priodol, a'i chyhoeddi. Byddai trefniadau trosiannol yn gofyn i awdurdodau i gyhoeddi datganiad strategaeth buddsoddi dim hwyrach na chwe mis ar ôl i'r rheoliadau dod i rym.
- Mae'r Rheoliadau newydd drafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer awdurdodau gweinyddol, i gyhoeddi eu polisiau ar maint yw materion amgylcheddol, cymdeithasol a materion llywodraethol yn cael eu ystyried ar dewisiadau, dargadwadau a gwerthiant buddsoddiadau.
- Cadw dyraniad asedau gyda'r awdurdodau cronfa leol, a gwneud data mwy tryloyw a chymharol ar gael, er mwyn adnabod y gwir gost buddsoddi a chreu effeithlonrwydd bellach yn y Cynllun.
- Cynnig i beidio dilyn cyfuniad cronfeydd ar hyn o bryd.

## 3. CWESTIYNAU YMGYNGHORIAD

3.1 Mae'r cwestiynau ymgynghori ar y newidiadau i'r rheoliadau fel a ganlyn:

**Q1. A yw'r dadreoleiddio arfaethedig yn cyflawni'r amcan polisi i ddiddymu unrhyw reoliad dianghenraid tra dal i sicrhau bod buddsoddiadau'r awdurdodau yn cael eu gwneud yn ddarbodus ac yn dilyn derbyn cyngor?**

**Q2. Oes unrhyw faterion penodol sydd angen cael eu hadfer? Esboniwch pam os gwelwch yn dda.**

**Q3. A yw chwe mis y cyfnod priodol i'r trefniadau trosiannol aros mewn lle?**

**Q4. A dylid y rheoliad bod yn eglur dylid ond defnyddio deilliadau fel offeryn rheoli risg? Oes unrhyw amgylchiadau pryd byddai defnydd o ddeilliannau yn briodol?**

## 4. CYNNIG 2: CYFLWYNO AMDDIFFYNIAD – YSGRIFENNYDD GWLAD HAWL I YMYRRYD

4.1 Mae'r papur ymgynghori yn gosod y materion isod o dan gynnig 2:

- Hawl i ymyrryd os yw'r Ysgrifennydd Gwlad yn credu nad yw'r awdurdod gweinyddol wedi cymryd sylw o'r arweiniad a rheoliadau.
- Wrth gyrraedd at y casgliad hwn bydd yr Ysgrifennydd Gwlad yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael gan gynnwys;
    - Tystiolaeth bod yr awdurdod gweinyddol yn anwybyddu gwybodaeth ar ymarfer gorau.
    - Tystiolaeth nad yw'r awdurdod gweinyddol yn dilyn y rheoliadau buddsoddi neu heb ystyried arweiniad a chyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwlad, er enghraifft, gellir cynnwys peidio cymryd

rhan mewn un o’r cronfeydd asedau mawr neu gynnig trefniant cydgyfrannu nad yw’n cydymffurfio gyda meini prawf ac arweiniad.
    - Tystiolaeth bod yr awdurdod gweinyddol yn ymgymryd yn wael a swyddogaeth arall perthnasol i bensiynau

- Os yw’r Ysgrifennydd Gwlad yn fodlon bod angen ymyriad, bydd o’n ysgrifennu i’r awdurdod yn amlinellu’r ymyriad arfaethedig a’r dystiolaeth a defnyddiwyd i wneud y penderfyniad.
- Rhoir amser i’r awdurdod i ystyried y cynnig a chyflwyno ei ymresymiad ar gyfer unrhyw newidiadau mae’n meddwl y dylid gwneud.
- Os, ar ddiwedd y cyfnod hwn, mae ymyriad yn cael eu cyhoeddi, unrhyw gostau, ffioedd a threuliau sydd yn cael achosi yn cael eu talu o’r asedau’r gronfa bensiwn.
- Bydd gan yr ymyriad dyddiad adolygu ffurfiol ond gellir darfod cyn hynny os yw gwellhad digonol wedi ei gwneud.

## 4. CWESTIYNAU YMGYNGHORIAD

4.1 Mae’r cwestiynau ymgynghori ar y newidiadau i’r rheoliadau fel a ganlyn:

**Q5. Oes unrhyw ffynonellau tystiolaeth gall yr Ysgrifennydd Gwlad a gellir defnyddio er mwyn sefydlu os yw ymyriad yn ofynnol?**

**Q6. A yw’r ymyriad yn rhoi digon o gwmpas ac amser i awdurdodau er mwyn cyflwyno tystiolaeth o blaid eu trefniadau presennol pan nail ai penderfynu ymyriad yn y lle cyntaf, neu adolygu os dylid aros mewn lle?**

**Q7. A yw’r dull arfaethedig yn caniatáu digon o hyblygrwydd i’r Ysgrifennydd Gwlad I sicrhau ei gallu i gyflwyno ymyriad cyfatebol?**

**Q8. A yw’r cynigion yn cyrraedd amcanion y polisi, sydd i’w caniatáu’r Ysgrifennydd Gwlad gwneud ymyriad cyfatebol mewn gweithgaredd buddsoddi'r awdurdod gweinyddol os nad oedd digon o ystyriaeth o’r ymarfer gorau, arweiniad neu reoleiddiad?**

## 5. YMATEB I’R YMGYNGHORIAD

5.1 Mae copi llawn o’r ddogfen ymgynghori ar gael ar <https://www.gov.uk/government/consultations/revoking-and-replacing-the-local-government-pension-scheme>

5.2 Gofynnir y Pwyllgor ystyried unrhyw farn neu faterion eu bod eisiau cynnwys yn yr ymateb gan Gyngor Gwynedd.